CYNGOR CYMUNED EGLWYSWRW COMMUNITY COUNCIL.

Cynhalwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned, Nos Fawrth 4ydd o Ebrill 2017 yn yr Hen Ysgol Eglwyswrw gan gychwyn am 8.00y.h.

Presennol

Cadeirydd: Julie Charlton

Cynghorwyr: Enid Cole, Lon Davies, Ieuan Davies

Cynghorydd Sir: Keith Lewis

Clerc: Helen Evans

Croeso'r Cadeirydd:

Croesawodd y cadeirydd yr aelodau I'r cyfarfod.

Ymddiheiriadau:- Ceirwyn John, Llinos Davies, Robin Philips, Alwyn Evans

Cofnodion 07.03.17

Cynigodd Ieuan Davies ac eiliodd Lon Davies fod y cofnodion yn gywir. Arwyddwyd y cofnodion gan y Cadeirydd.

Materion yn codi o'r cofnodion

127. Mr. Absalom Serjeant's Eglwyswrw – Safle bws a cysgodfan y pentref. Cyng. Keith Lewis wedi cadarnhau bod hwn mewn dwylo Asiant Cefnffyrdd De Cymru.
128. Llythyr wrth Pwyllgor Canolfan Gymdeithasol Brynberian ynglyn a cyfraniad ariannol. Cynigodd Ieuan Davies ac eiliodd Enid Cole cyfraniad o £500.00

Gohebiaeth

129. Cyfanwm yn y banc 25.3.2017 - £2,983.05
130. Llythyr wrth Cymdeithas Treftadaeth Eglwyswrw a'r Fro – Llythyr ynglyn a Prosiect Cofeb Myfyr Emlyn – Fe fydd hwn ar agenda y cyfarfod nesaf.
131. Cyngor Sir Benfro – Cynllun Gwella Hawliau Tramwy – Agenda y cyfarfod nesaf.
132. Cinio Blynyddol – Agenda y cyfarfod nesaf.
133. Archwiliad Blynyddol. Cadarhaodd Helen bod yr archwiliad blynyddol yw ddychwelyd erbyn y 5ed o Fehefin. Cynigodd Ieuan Davies ac eiliodd Lon Davies I John Davies fod yn archwiliwr mewnol.
134. Cyngor Sir Benfro – Cais Cynllunio Mr. N. Reed, Rock Cottage, Eglwyswrw. Cyn trafod dangosodd Julie Charlton diddordeb yn y mater. Cais ar gyfer cynllunio ol weithredol er mwyn newid defnydd o adeilad amaethyddol I garej. Roedd pawb yn hapus gyda'r cais
135. Cyngor Sir Benfro Cais Cynllunio Mr. a Mrs. A Milner, Brynvilla, Eglwyswrw cadarnhad bod y cais wedi dderbyn.

Unrhyw Fater Arall

136. Cod Ymddygiad diwygiedig – Dosbarthwyd y wybodaeth I pawb.
137. Cyngor Sir Benfro – Cais Cynllunio Mr. R Evans, Ivy Bridge Cottages, Wdig. Cais ar gyfer newid defnydd ac estyniad I Butchers, Eglwyswrw I ffurfio 2 lle byw. Roedd pawb yn hapus gyda'r cais.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf: Nos Fercher 10 fed o Fai am 8.00y.h.

Terfynwyd y Cyfarfod am 8.50y.h.